**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 3 Mawrth, 2009 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd David Richardson – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Dewi Owen – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr Alun Wyn Evans, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Brian Bates a D Hughes (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Aberdyfi), Mr W Bracwell (Partneriaeth Aberdyfi) a Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Paul Edwards | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mrs. Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Tom Ellis a Trevor Roberts (Cyngor Gwynedd), Mr Nick Dawson (Outward Bound), Mr Nigel Scott (Clwb Rhwyfo Aberdyfi).

1. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 21 Hydref 2008.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

**2. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**Eitem 5 (B) (i) – Golau yn y Gysgodfan Gyhoeddus wrth ymyl swyddfa'r Harbwr Feistr**

**Adroddwyd:** Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn â diweddariad ar yr uchod, ei fod wedi cysylltu â'r Uned Eiddo ac yn disgwyl iddynt ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol. Cydnabyddodd y swyddog bod camddefnydd o'r gysgodfan ac 'roedd o'r farn y byddai camerau Cylch gyfyng yn helpu i liniaru'r problemau ac y byddai'n ceisio cael cyllid fel bo modd ei roi ar restr blaenoriaeth.

Tra'n cydweld â'r syniad o gael camerau cylch gyfyng yn y Gysgodfan, 'roedd yr aelod o'r farn ei fod yn bwysig i osod golau ynddo oherwydd ei bod mor dywyll ac ni fyddai modd dehongli'r recordiad ar y camera fel bo modd adnabod y rhai sydd yno yn yfed dan oed ac yn achosi budreddi.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

3. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad arbennig at y canlynol:-

(i) Ffioedd a Thaliadau
(ii) Cyllidebau
(iii) Mordwyo
(iv) Staff
(v) Gwobr Traeth
(vi) Materion Cyffredinol
(vii) Consesiwn Traeth
(viii) Canlyniad Barn Cwsmer

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

(i) yng nghyswllt **ffioedd a thaliadau** bod y swyddogion statudol a'r Arweinyddion Portffolio wedi cymeradwyo cynnydd o 3% ar ffioedd i'r rhai sy'n byw yn barhaol yng Ngwynedd tra fo'r cynnydd i'r rhai sy'n byw tu allan i Wynedd yn 5%. Rhagwelir y byddai chwyddiant o 3.97% i bob Harbwr yng Ngwynedd a fyddai'n cyfateb i gynnydd angenrheidiol o £11,270 yn nharged incwm cyffredinol i'r Harbwr am 2009/10. Nodwyd cyfanswm targed incwm cyffredinol o £2,121,900 i'r Uned Forwrol ac yn wyneb yr hinsawdd ariannol sydd ohoni 'roedd hyn yn swm heriol iawn i'r gwasanaeth.

Nodwyd y derbyniwyd 80 o ffurflenni cais am angorfeydd ar gyfer y tymor nesaf ac fe weithredir rhestr fer a fyddai'n caniatáu ymestyn ceisiadau i rai eraill. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â sut 'roedd y ffigwr hwn yn cymharu â llynedd, dywedodd y Swyddog Morwrol ei fod yn eithaf tebyg ond bod ymgeiswyr yn dueddol i ddychwelyd eu ffurflenni cais yn hwyr. 'Roedd niferoedd yn isel yn gyffredinol yn yr oll Harbyrau ac fe all y diwydiant morwrol weld gostyngiad yn y defnyddwyr oherwydd cost treth ychwanegol ar ddisel coch. Ers 1 Tachwedd 2008, 'roedd deddf newydd wedi dod i rym sy'n golygu codi treth ar werth ar ddisel coch ar gyfer defnydd tramwyo mewn cychod pŵer. Nodwyd nad oedd treth ar werth ar ddisel coch a ddefnyddir i wresogi cychod. Golygai hyn waith sylweddol nid yn unig o ran gweinyddu'r broses ond fe fyddai'n rhaid i unigolion wneud datganiad yn nodi defnydd y disel coch. Pwysleisiwyd bod y gost yn parhau'n isel i ddefnyddwyr masnachol.

Gofynnodd yr aelod lleol faint o farchnata 'roedd Cyngor Gwynedd yn ei wneud o ran denu cwsmeriaid newydd ac ymwelwyr i'w Harbyrau. Teimlai bod hyn yn elfen bwysig dros ben o ystyried bod y Cyngor yn disgwyl derbyn refeniw i'w coffrau ond nad ydynt yn marchnata'n ddigonol. Fe fyddai'r aelod yn codi'r mater hwn eto yn un o gyfarfodydd priodol y Cyngor.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol nad oedd gan yr Uned Forwrol gyllideb penodol ar gyfer marchnata ond 'roedd elfen o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r traethau.

Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod yn ddibynnol ar sut 'roedd Cyngor Gwynedd yn ystyried eu Harbyrau, yntau fel baich ariannol neu fel elfen o greu refeniw. O safbwynt y morwyr, nid oedd mynediad i'r Harbwr yn Aberdyfi yn hwylus oherwydd diffyg pontynau addas ac 'roedd y Cadeirydd o'r farn y dylid ceisio gwneud yr Harbwr yn fwy deniadol i'w farchnata. Ategwyd yr un sylwadau gan sawl aelod a phwysigrwydd i farchnata'r elfen fordwyo boed hyn mewn cylchgronau neu mewn sioeau cychod.

Teimlai aelod bod yn rhaid gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cychod pŵer a badau dŵr personol cyn marchnata am ragor o geisiadau am angorfeydd oherwydd 'roedd y ddarpariaeth yn llawn llynedd. Mewn ymateb, tra'n derbyn y sylw, esboniodd y Swyddog Morwrol pe byddir yn cynyddu nifer angorfeydd yn sicr fe fyddai'n rhaid eu gosod mwy

allan i'r môr ac o ganlyniad fyddai'n amharu ar weithgareddau eraill yn y foryd. Nodwyd pwysigrwydd i gadw balans ar weithgareddau a chydweithio hefo'i gilydd.

Awgrymwyd y dylid cynnal gweithgareddau nid o reidrwydd yn ystod tymor gwyliau ond yn ystod y gaeaf hefyd a fyddai'n denu ymwelwyr i Aberdyfi. 'Roedd y Swyddog Morwrol yn cytuno a bod Aberdyfi wedi gweld gwelliannau dros y blynyddoedd a bod rhai datblygiadau wedi eu rhoi o'r neilltu ar hyn o bryd hyd nes y bydd yn wybyddus ynglŷn â chynlluniau a datblygiadau Partneriaeth Aberdyfi i'r dyfodol.

Amlygwyd amrywiol bryderon gan aelodau megis siltio yn ardal Penhelyg, cadwyn angor a osodwyd gan Bysgodfa Orllewinol yn y 60au. Apeliodd y Swyddog Morwrol ar i aelodau gysylltu â'r Harbwr Feistr ynglyn â mân welliannau i'r Harbwr oherwydd bod angen i'r gwasanaeth fod yn rhagweithiol ac fel y gellir datrys unrhyw broblemau ar unwaith a pheidio disgwyl i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn. Yn y cyfamser, gofynnir i Harbwr Feistr Abermaw a Harbwr Feistr Aberdyfi ddod at ei gilydd i edrych ar y posibilrwydd o fedru lleoli pontynau mewn mannau priodol.

(ii) nodwyd bod cynnydd mewn archebion i feysydd carafannau eleni a hyderir y bydd pobl yn cymryd gwyliau yng Nghymru yn hytrach na thramor. Yng nghyswllt **cyllidebau**, 'roedd penderfyniad anodd iawn i'w gwneud gan aelodau oherwydd toriadau corfforaethol a fyddai'n cael effaith ar holl wasanaethau'r Cyngor. Tynnwyd sylw'r aelodau at y diffyg o £7,719 yn nharged incwm Harbwr Aberdyfi. 'Roedd hyn yn creu pryder a chyfeiriwyd at ddifrifoldeb y sefyllfa yn gyffredinol drwy i'r gwasanaeth orfod colli hanner swydd Harbwr Feistr ym Mhwllheli sef un o Harbyrau prysuraf y Sir.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn â chyllideb symud tywod eleni, esboniodd y Swyddog Morwrol bod y gyllideb honno yn gyfrifoldeb y gwasanaeth amddiffyn yr arfordir.

Tywysodd y Swyddog Morwrol yr aelodau drwy'r penawdau perthnasol o fewn y taflenni cyllidol ynghlwm i'r rhaglen gan roddi cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau pe dymunent.

Gwnaed sylw gan y Cadeirydd ei fod yn ymwybodol bod Pwyllgor Ymgynghorol Abermaw yn ei gyfarfod diwethaf ym mis Hydref 2008 wedi argymell i ddirprwyaeth gwrdd â swyddogion perthnasol yng Nghaernarfon i drafod y posibilrwydd o'r Uned Briffyrdd a Bwrdeistrefol drosglwyddo canran o dderbyniadau'r maes parcio yn Abermaw i'r Gwasanaeth Morwrol o ystyried mai cyfleusterau'r Harbwr sy'n denu'r defnyddwyr i'r maes parcio ac i Abermaw. Gofynnwyd a fyddai modd i'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn gyflwyno cais cyffelyb.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol nad oedd y cais uchod yn ymarferol bosibl o safbwynt Abermaw nac ychwaith Aberdyfi. 'Roedd pob gwasanaeth yn gorfod gwneud arbedion effeithlonrwydd. Fel rhan o'r toriadau fe fydd yr Uned Dysgu Gydol Oes a oedd yn cael ei arwain gan Mr Rhys Wyn Parri yn cael ei ddiddymu o'r 31 Mawrth 2009. Golygai hyn felly bod swydd Mr Rhys Wyn Parri, Pennaeth Dysgu Gydol Oes, yn cael ei diddymu o'r gyfundrefn bresennol a phrysurodd y Swyddog Morwrol i ddweud bod Mr Parri wedi cymryd diddordeb a'i fod wedi bod yn gefnogol i waith yr Uned Forwrol ar hyd y blynyddoedd a fu yn ei swydd. O ganlyniad, fe fyddai'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn cael ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd o'r 1 Ebrill 2009 dan ofal Mrs Sioned E. Williams, Pennaeth Economi ac Adfywio. Rhydd hyn gyfle i'r Uned Forwrol gydweithio'n agos gydag arbenigwyr yn y maes datblygu'r economi yn arbennig yng nghyd-destun canfod ffynonellau am grantiau perthnasol ar gyfer unrhyw ddatblygiadau i'r Harbwr.

(iii) yng nghyswllt **mordwyo,** cafwyd diweddariad gan yr Harbwr Feistr ynglyn â'r cymhorthion. Gwnaed cais gan aelod i'r cymhorthion gael eu gosod ar y 1 Ebrill eleni

(iv) ymhelaethwyd ar y sefyllfa **staffio** gan nodi'r angen i benodi swyddog tymhorol dros dro i swydd y Cynorthwy-ydd Harbwr yn Aberdyfi i ddechrau ar 1 Ebrill 2009. Fe fyddai un swyddog traeth yn cael ei benodi ar gyfer ganol Mehefin gyda dau swyddog yn cael eu penodi ar gyfer Tywyn.

Gwnaed sylw gan aelod nad oedd pobl ifanc yr ardal yn awyddus i ymgeisio am swyddi swyddogion traeth oherwydd agwedd pobl tuag atynt.

(v) yng nghyswllt **gwobrau traeth,** nodwyd siom na fyddai'r Uned Forwrol mewn sefyllfa i gyflwyno cais am wobr traeth i draeth Aberdyfi yn 2009 oherwydd nid oedd ansawdd y dŵr ymdrochi yn cyrraedd y safon ofynnol. Fodd bynnag, 'roedd yr Uned Forwrol wedi gwneud cais am Wobr Traeth Tref Glan Môr i Aberdyfi. Tywyswyd yr aelodau drwy'r rhestr fanwl o ganlyniadau profion dwr ymdrochi yn Aberdyfi yn ogystal ag edrych ar brofion Abermaw.

Ategwyd siom yr aelodau yn hyn o beth bod Aberdyfi wedi colli statws y Faner Las ac oni ddylid ymchwilio i'r rhesymau paham nad oedd safon y dŵr wedi cyrraedd y gofynion. Nodwyd amrywiol awgrymiadau gan yr aelodau a all gyfrannu tuag at ansawdd y dŵr, megis glaw trwm a phibellau carthffosiaeth ansafonol. Mynegwyd pryder ynglyn â dull yr arbrofi a'r union fan y gwneir yr arbrofion.

Nodwyd yn ychwanegol bryder ynglyn â safon glendid y traeth ac mewn ymateb awgrymodd y Swyddog Morwrol oni ellir sefydlu Grŵp Gwirfoddol yn Aberdyfi fel sydd yn digwydd mewn mannau eraill o'r Sir lle mae grwpiau yn gwirfoddoli i lanhau traethau.

'Roedd problem gynyddol yn ystod llanw uchel o goed yn cael ei golchi fyny ar y traeth ac o ganlyniad yn creu perygl i ddefnyddwyr y traeth. Gofynnwyd a fyddai'n bosibl penodi contractwr i glirio'r traeth. Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol os cyfyd problem o'r fath y byddai'r Harbwr Feistr yn trefnu i gael contractwr i gludo'r sbwriel oddi ar y traeth ac apeliwyd i'r aelodau gysylltu â'r Harbwr Feistr os cyfyd unrhyw broblemau o'r fath.

(vi) Yng nghyswllt **materion cyffredinol,** atgoffwyd bod pont droed i Fryn Llestair o'r ffordd fawr yn croesi rheilffordd "fyw". Nodwyd y byddai'r Uned Forwrol yn ei thrwsio fel mae unrhyw ddiffygion yn codi ond rhagwelir mwy o waith atgyweirio i'r dyfodol ac anodd fydd dod o hyd i gyllideb i wneud hyn.

(vii) tynnwyd sylw'r aelodau at **ganlyniad barn cwsmer** a oedd ynghlwm i'r rhaglen gan nodi cywiriad ar dudalen 10 ym mhwnt 11 o'r Saesneg i ddisodli'r geiriau "regular dredging" hefo "new slipway". Nodwyd siom mai hanner y ffurflenni a ddychwelwyd ond o leiaf 'roedd yn rhoi cyfle i gwsmeriaid fynegi eu barn pe dymunent.

Tynnodd aelod sylw, er ei fod yn hwylio dingi, nad oedd erioed wedi derbyn na chwblhau ffurflen.

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol sy'n cynrychioli'r amrywiol clybiau apelio ar eu haelodau i gwblhau'r ffurflenni barn cwsmer.

**Penderfynwyd:- Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

4. **RHEOLIADAU LLONGAU DRAFFT**

**Cyflwynwyd:** I'r aelodau yn ystod y cyfarfod, rhannau perthnasol o reoliadau ar gyfer ymgynghoriad gan yr Adran Drafnidiaeth i eithrio morwyr amatur mewn categorïau penodol o longau o'r drosedd o fod dros y lefel o alcohol a ganiateir yn deillio o Adran 80 (2) Deddf Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth**.**

**Adroddwyd:** Gan y Swyddog Morwrol wrth i'r Ddeddf gael ei phasio trwy'r Senedd, nododd y Llywodraeth ei fod yn tueddu eithrio cychod rhwyfo a phadlo a dingis hwylio o'r cyfyngiadau anadl a'r profion cysylltiedig. 'Roedd peth cefnogaeth yn yr ymgynghoriad i ffigyrau a oedd yn seiliedig ar y paramedrau a awgrymwyd ynghylch eithriad yn seiliedig ar gyflymdra o ddim mwy na 17 not a hyd o ddim mwy na 22 metr. Fodd bynnag, sylwyd y byddai hyn yn eithrio nifer helaeth o fadau hamdden – nifer ohonynt a fyddai'n weddol fawr a chyflym. Ar ôl ystyried barn gan asiantaethau gorfodi, morwyr hamdden a'r cyhoedd, penderfynodd y Gweinidogion ar eithriad mwy cyfyngedig i bobl ar gychod a oedd yn fyrrach na 7 metr ac nad oeddynt yn gallu teithio'n gyflymach na 7 not.

Nodwyd bod y Llywodraeth yn gweithio ar fesurau i ymdrin â badau dwr personol ar wahân ac nad oeddynt yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Gofynnwyd i'r aelodau am eu sylwadau i'r ymgynghoriad.

Croesawodd yr aelodau'r rheoliadau o fewn y Ddeddf ond mynegwyd pryder ynglyn â defnyddwyr y badau dŵr personol. Sicrhaodd yr Harbwr Feistr os oedd unigolion dan effaith alcohol, 'roedd ar bob achlysur yn cysylltu â'r Heddlu.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyfleu cymeradwyaeth y Pwyllgor Ymgynghorol hwn i'r rheoliadau a gyfeirir atynt uchod.**

5. **UNRHYW FATER ARALL**

**Adroddwyd:** Gan y Peiriannydd Grwp y byddai'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth yn ymgymryd â'r gwaith o glirio tywod eleni am dri diwrnod yn cychwyn ar 23 Mawrth 2009.

Awgrymodd aelod wrth glirio'r tywod a fyddai modd gadael gogwyddiad yn y tywod i roi graddiant i'r traeth. Yn ychwanegol, gofynnwyd i'r swyddog edrych ar yr ardal wrth ymyl y stepiau ger y maes parcio.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

6. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 20 Hydref 2009.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod.**

**CADEIRYDD**